

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWDYD AR NOS  
FAWRTH 12FED O FAWRTH 2019 YN Y PAFILIWN, RHEWL AM 7.45 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Siân Davies (Cadeirydd y cyfarfod), Iona Jones, Clwyd Thomas, Cynghorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry, Cynghorydd Bob Barton (Cynrychiolydd Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru) a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Mike Denman, Ian Hession, Arwel Jones ac Wyn Wilkinson.

2. ABSENNOL: Y Cynghorwyr Brynle Lloyd a Dewi Roberts.

3. DDATGAN DIDDORDEB.

Dim yn codi.

4: TRAFODAETH GYDA CHYNNRYCHIOLAETH HEDDLU GOGLEDD CYMRU.

Croesawodd y Cadeirydd i'r Swyddog Cefnogi Cymuned Heddlu Matthew Williams o'r Orsaf Heddlu Rhuthun i'r cyfarfod. Derbyniwyd adroddiad o'r troseddau yn y gymuned ers mis Tachwedd 2018 gan y Swyddog. Y prif bryder aelodau'r Cyngor oedd cyflymdra'r traffic ar ffyrdd ym mhentref Rhewl. Cytunodd y Swyddog i wneud asesiad o'r cyflymdra'r traffic trwy'r pentref Rhewl ac i adroddi yn ôl i'r Cyngor. Diolchwyd y Cadeirydd i SCCH Matthew Williams am fynychu'r cyfarfod.

5. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 8fed o Ionawr 2019 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

6. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cadarnhau maent wedi rhoi gorchymyn i'r perchenog Stone Barn, Rhewl (Plas Isa' gynt) i dorri'r gwrych sydd yn culhau'r Llwybr Cyhoeddus.  
B. Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl ymateb oddi wrth Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych trwy'r sustem Gwasanaethau Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych. Penderfynwyd yr Aelodau i'r Clerc tynnu sylw Mr Tony Ward, Bennaeth Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych, yn cwyno nad fod Swyddogion Adran Briffyrdd yn ymateb i'r ymholiadau'r Cyngor Cymuned trwy'r Adran Gwasanaethau Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych.

7. CYN BOCS FFFON GOCH LLANYNYS.

Chadarnhawyd y Clerc fod y cyn boes ffon goch yn Llanynys mewn perchnogaeth y Cyngor Cymuned erbyn hyn. Adroddwyd y Cynghorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry ei fod yn edrych i mewn i gael "Diffibriliwr" i'r lleoliad ac am unrhyw grantiau i gael tuag at y gost yr offer. Diolchwyd yr Aelodau i'r Cynghorydd Parry am ei adroddiad a phenderfynwyd yr Aelodau i'r Cyngor Cymuned cyfrannu tuag at y gost.

8. CYLLID.

A. Datganiad Banc £14,872.00.

B. Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

1. Tal Aelodaeth Flynyddol 2019/2020 Un Llais Cymru £108.00.

2. Cyflog y Clerc am chwarter yn diweddu 31ain o Fawrth 2019 £400.00.

3. HM Revenue & Customs (PAYE) am y chwarter yn diweddu 31ain o Fawrth 2019 £100.00.

4. Chostau'r Clerc am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2019 £750.35.

#### 9. CAIS AM GEFNOGAETH ARIAN.

Derbyniwyd cais am gefnogaeth arian y Cyngor oddi wrth Bwyllgor lleol o'r Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020. Penderfynwyd cyfrannu £1,000.00.

#### 10. CEISIADAU CYNLLUNIO.

Nid oedd gan yr Aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

A: Manylion diwygiedig i godi uned gynhyrchu wyau rhydd gan gynnwys seilos a gwaith cysylltiedig gan gynnwys mynedfa ym Mhlas Llanynys, Llanynys.

B. Codi estyniad i'r annedd yn Stone Barn (Plas Isa' gynt) yn Rhewl.

#### 11. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth y Cynghorydd Bob Barton, Is-gadeirydd Pwyllgor Ardal Lleolo Un Llais Cymru, ei fod wedi trefnu cwrs hyfforddiant Un Llais Cymru yn Llanbedr Dyffryn Clwyd ar 8fed o Ebrill 2019 ac estynni'r gwahoddiad i Aelodau'r Cyngor Cymuned Llanynys fod ym mhresennol yn y cwrs hyfforddiant.

B. Mae'r Cynghorydd Sir Ddinbych, Merfyn Parry, wedi hysbysu Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych fod yr arwydd tuag at Llanrhaeadr ar y ffordd o Llanynys i Llandyrnog ar goll ac eisiau ei ail osod.

C. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

#### 12. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Eisoes wedi ei chodi a chofnodwyd yn y cofnodion.

#### 13. AELODAETH Y CYNGOR.

Nodwyd y Clerc nad oedd y Cyngorwyr Brynle Lloyd a Dewi Roberts wedi mynychu'r cyfarfodydd y Cyngor rhwng chwech a 12 mis bellach. Penderfynwyd y Clerc hysbysu'r ddau aelod o'r absenoldeb o'r cyfarfodydd.

#### 14. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

Nodwyd yr Aelodau fod yna Cwn yn crwydro yn rhydd ar gaeau yn Rhewl a phenderfynwyd cadw llygad ar y sefyllfa.

15. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Fawrth 14eg o Fai 2019 yn Y Pafiliwn Rhewl am 7.45 p.m.